# y Dinesydd

Cylchgrawn Newyddion Cymraeg Caerdydd Rhif 182 1 Ebrill 1992 65c


# Hunllef Maxwell yn sugno'r Dinesydd

GYDA DYMCHWEL ymerodraeth Robert Maxwell, a'r ymchwil i'r miliynau o bunnau a ddiflannodd o gronfa bensiwn grŵp y Mirror, datgelwyd dogfennau gan yr archwilwyr Price Waterhouse sy'n cysylltu Maxwell â'r Dinesydd, a'i fwriad ym 1988 i lansio papur newydd Cymraeg.

Cadarnhawyd manylion y dogfennau gan y rheiny oedd yn aelodau o bwyllgor y Dinesydd ar y pryd. Ar ôl cymryd cyngor cyfreithiol, gall y Dinesydd ddatgelu'r manylion hyn sydd yng nghlwm wrth weddill materion y diweddar Robert Maxwell.

Ar gais Maxwell, cyfarfu tri o aelodau pwyllgor y Dinesydd ag ef yng ngwesty'r Angel yng Nghaerdydd ddwywaith ym mis Mawrth 1988 i drafod prynu teitl y Dinesydd. Ei fwriad oedd ail-lansio'r papur ym 1989 yn bapur dyddiol tabloid Cymraeg newydd, o'r enw *Y Dinesydd Cenedlaethol*.

Roedd Maxwell wedi clustnodi £7.5 miliwn i sefydlu'r fenter mewn prif swyddfa newydd yng Nghaerdydd, gyda dwy swyddfa ychwanegol yn y Gorllewin a'r Gogledd a fyddai'n paratoi ac yn argraffu fersiynnau rhanbarthol o'r Dinesydd Cenedlaethol trwy rwydwaith electroneg fodern.

Yn ogystal â hyn byddai Maxwell wedi cyflogi hanner cant o ohebwyr ledled Cymru. Roedd eisoes wedi dewis un o brif newyddiadurwyr Cymru yn olygydd i'r Dinesydd Cenedlaethol, gan osod aelodau o bwyllgor y Dinesydd yn gyfarwyddwyr gweithredol ar fwrdd rheoli y papur cenedlaethol newydd.

Denwyd Robert Maxwell at y Dinesydd am mai hwn yn ei farn ef oedd "â'r potensial mwyaf o blith yr holl gyhoeddiadau Cymraeg". Fodd bynnag, roedd y Dinesydd ym 1988 yn wynebu trafferthion ariannol oedd yn darogan diwedd ar gyhoeddi'r papur ac yn agored i ddylanwadau masnachol o'r tu allan.

Er hynny, roedd Robert Maxwell yn gyndyn iawn i ehangu'r drafodaeth i gynnwys unigolion, cwmnïau a grwpiau eraill fyddai wedi bod â diddordeb yn y fenter.


Yn ôl Shân Emlyn, golygydd y Dinesydd, "ar ôl i ni gychwyn trafod, mynnodd Maxwell ein bod yn tyngu llw ysgrifenedig i gadw'r trafodaethau dan ein het tan y byddai e'n bersonol barod i wneud cyhoeddiad. Fe gytunom ni i hyn dim ond ar ôl i ni gael sicrwydd ganddo y byddai trafodaeth gyhoeddus lawn am y fenter cyn cyhoeddi'n swyddogol y byddai'r Dinesydd Cenedlaethol yn cael ei lansio."

Dywedodd Robin Jones, fu'n llywio'r trafodaethau ar ran pwyllgor y Dinesydd, y rhagwelwyd y byddai'r Dinesydd Cenedlaethol o bosib "yn tanseilio dyfodol nifer o bapurau bro Cymru, heb sôn am wythnosolion fel y Cymro a'r Faner a theitlau rhanbarthol eraill. Roedd hon yn sefyllfa oedd yn creu cryn bryder i ni, ac yn un o'r rhesymau pam fethodd y cynlluniau yn y pen draw".

Roedd Robert Maxwell yn awyddus i gymryd drosodd teitl Cymraeg oedd eisoes yn bodoli, er mwyn osgoi haeriadau ei fod yn corneli'r farchnad Gymraeg er mwyn gwneud elw yn unig.

Ymgymerwyd ag ymchwil trylwyr oedd yn dangos y byddai modd gwerthu 75,000 o gopïau o'r Dinesydd Cenedlaethol yn ddyddiol, gan wneud elw o £250,000 yn ystod y flwyddyn gyntaf.

*i dudalen 3*



AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

# Ffair Fai

1 - 4 Mai 1992
(gan gynnwys Gŵyl Banc Calan Mai)
10am - 5pm bob dydd

Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd

Gŵyl genedlaethol sy'n cynnig diwrnod allan i'r holl deulu!

Yr atyniadau'n cynnwys:

- Codi'r Fedwen Fai
- Ffair Fictorianaidd, clowniau, pypedau, patshyn chwarae i'r plant
- Arddangosiadau crefft a neuadd fwyd Gymreig
- Pentref Celtaidd newydd yr Amgueddfa
- Cerddoriaeth a dawns
- Cyflwyniadau hanes byw, gan gynnwys ffug-frwydr
- Adeiladau traddodiadol un o Amgueddfeydd awyr-agored gwychaf Ewrop

Am fanylion pellach, ffoniwch Caerdydd (0222) 555105
Mynediad ar Ŵyl y Banc (4 Mai) o'r M4 (cyffordd 33) yn unig

TRYDAN De Cymru

Noddir y Ffair gan Drydan De Cymru

# SPA
SUCCESSION PLANNING ASSOCIATES

**Mae ein gwasanaethau yn cynnwys:**

**Chwilio**
**Dethol**
**Hysbysebu**
**Asesu**
**Archwilio Rheoli**
**Profi Seicometrig**

John Smith, Cyfarwyddwr Rheoli
11 Rhodfa Raleigh, Cei yr Iwerydd,
Caerdydd CF1 5LN
Ffôn 0222 450260

celtic
HENDERSON CROSTHWAITE

BROCERIAID STOC A RHEOLWYR
BUDDSODDI ANNIBYNNOL

Yr enw newydd ym myd Broceriaid Stoc yng Nghymru

## "Yng ngheg y sach y mae cynilo"

**Yn gyntaf, dewch i siarad â ni**

**Dafydd Hampson-Jones**

**neu Howard Bailey**

Tŷ Penhill, Heol Penhill, Caerdydd, CF1 9UP
ffôn (0222) 394021/6 ffacs (0222) 228452

Mae Celtic Henderson Crosthwaite yn enw masnachol Henderson Crosthwaite Cyf. Mae Henderson Crosthwaite Cyf yn rhan o grŵp Guinness Mahon Holdings ccc., yn aelod o Awdurdod Gwarannau a Dyfodolion ac hefyd yn aelod o Gyfnewidfa Stoc Llundain.

# Y MOSAIG EWROPEAIDD

Ieithoedd Llai eu Defnydd yn Ewrop, a sut i droi'r trai

**YSGOL BASG 1992**
**CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG**

Ebrill 17, 18, Canolfan Gymraeg Merthyr Tudful

Siaradwyr, Ffilmiau, Adloniant

Am fanylion pellach cysylltwch â
Gill Haf Stephen: 0222 486469 neu 0222 481835

# DECHRAU CYCHWYN

Dyna enw cynllun Menter a Busnes i ddatblygu adnoddau dechrau busnes i siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd.

Rydym yn edrych am un person busnes profiadol i weithio tua un diwrnod yr wythnos fel cynghorydd busnes. Mae'r telerau ar gyfer y swydd hon i'w trafod.

Hefyd mae angen 4 neu 5 o bobol sydd yn chwarae rhan allweddol mewn busnesau o bob math i roi cyngor anffurfiol.

Byddwch yn cydweithio gydag asiantaethau lleol ar y prosiect hwn. Os oes diddordeb gennych cael sgwrs am y cynllun, ffoniwch Siân Johnston, Menter a Busnes, Caerdydd 761314

menter a Busnes

## Colofn Shân

*"Prin yw'r arain yn y god*
*Ond mae amser gwell i ddod"*

Tybed? Dal i lusgo byw y mae'r Dinesydd o fis i fis. Yn y rhifyn hwn apeliwn atoch am eich cefnogaeth ariannol.

Yn y cyfnod hwn o ddirwasgiad, mae'n mynd yn anoddach ac yn anoddach cael hysbysebion i'r papur. Erbyn hyn mae'n lafur llawn amser i bob pwrpas i hel arian i gyhoeddi pob rhifyn, a phrin digon yw'r incwm i dalu am gostau galwadau ffôn y gwaith.

Fe sylwch ers rhai misoedd ein bod wedi bod yn nodi ar dudalen flaen y Dinesydd y gost i ni fesul copi. Petae pob darllenydd yn cyfrannu £15 y flwyddyn dyweder, byddai'n ysgafnhau ein baich yn sylweddol.

Y Dinesydd yw'r unig bapur bro yng Nghymru sy'n cael ei ddosbarthu yn rhad ac am ddim. Mewn cyfarfod Cymdeithas Papurau Bro yn ddiweddar, synnodd cynrychiolwyr papurau eraill Cymru at raen a diwyg y Dinesydd. Syndod mwy fyth ganddynt oedd dirnad sut y mae hi'n bosib i ni gael dau ben llinyn ynghyd.

Y gwir plaen ydy, yn y pen draw ***fydd hi ddim yn bosib*** – heb eich help chi, y darllenwyr sydd erbyn hyn, wedi cael y Dinesydd am ddim am ddeunaw mlynedd.


Rydym y mis hwn eto yn cynnal ein Harolwg Darllenwyr blynyddol. Hyderwn y bydd yr ymateb gystal â'r llynedd. Eleni eto ni fydd angen stamp i chi ddychwelyd ffurflen yr Arolwg, ac o bob ateb a gawn mi fydd un yn ennill tocynnau gwerth £20 i weld sioe neu berfformiad o'ch dewis yn Neuadd Dewi Sant neu'r Theatr Newydd.

Yng nghyfarfod y Gymdeithas Papurau Bro trafodwyd cynlluniau a allai newid sail ariannol y Dinesydd. Cyflwynwyd ffrwyth gwaith ymchwil i sefydlu cylchgrawn Cymraeg newydd fyddai'n atodiad misol i'r holl bapurau bro. Gyda chylchrediad o dros 75,000 o gopïau (sy'n fwy na'r Western Mail), byddai'r cylchgrawn cenedlaethol hwn yn gallu denu arian hysbysebu sylweddol. Ar ôl talu'r costau cynhyrchu o tua £200,000 y flwyddyn, y nod yw bwydo unrhyw elw nôl i'r papurau bro.

Mynegwyd pryderon y Dinesydd y gallai'r fenter hon sychu'n grimp ein ffynhonnell ariannol, sydd erbyn hyn bron yn llwyr ddibynnol ar incwm hysbysebu.

Dros y misoedd nesaf bydd yn rhaid i'r Dinesydd lunio strategaeth newydd ar gyfer codi arian i dalu'n costau cynhyrchu o £1,500 y rhifyn. Gobeithiwn yn fawr y cawn gefnogaeth ymarferol ein darllenwyr pan fydd ei angen.

# YN IAITH DY FAM I'W GAEL ER CORON – BRON!




MAE'R TRAMORWR ar ei wyliau mewn gwledydd fel Sbaen ers hydoedd bellach wedi gallu tynnu arian o'r banciau twll yn y wal mewn pa bynnag iaith a ddewisa. Hyd yma, bu'n rhaid i'r Cymro yn ei famwlad orfod gwneud hynny drwy'r Saesneg.

Ond mae tro ar fyd. Cyhoeddodd Banc Lloyds fod eu peiriannau twll yn y wal yn eu cangen yn City Road yn cynnig y gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Dyna'r gangen sydd islaw swyddfa Bwrdd yr Iaith.

Yn ôl Wyn Howells, cyfarwyddwr ardal Caerdydd y banc, "Mae'r dewis Cymraeg sydd gennym yn estyniad naturiol o bolisi dwyieithog y Banc sydd eisoes i'w weld mewn llyfrau sieciau, taflenni ac arwyddion mewn canghennau".

Datblygwyd meddalwedd newydd ar gyfer y Banc sy'n galluogi tramorwyr a Chymry Cymraeg i ddewis gwneud eu trafodion drwy gyfrwng eu mamiaith. Eisoes cyflwynwyd y meddalwedd i tua 40 o beiriannau yng Nghymru, a'r bwriad yw ehangu'r gwasanaeth dwyieithog wrth adnewyddu'r peiriannau arian.

# FFORDD OSGOI YN CODI GWRYCHYN

CYHOEDDODD Adran Priffyrdd De Morgannwg eu cynlluniau hir-ddisgwyliedig i adeiladu ffordd osgoi newydd ar gyfer Llandaf.

Bydd y ffordd newydd yn gostwng y traffig sydd ar hyn o bryd yn gorfod defnyddio ffyrdd Llandaf ac sy'n creu tagfeydd traffig dyddiol yn y pentre.

Mae rhan cyntaf y cynllun arfaeth-edig yn cysylltu Western Avenue yn uniongyrchol â'r M4 a'r A470 yn Coryton, gan ddilyn llwybr afon Taf o gyffordd newydd ar Western Avenue.

Bydd y ffordd yn torri cwys drwy'r caeau chwaraeon i'r de o'r Eglwys Gadeiriol, trwy lan yr Eglwys, cyn croesi'r afon ar bont newydd dros y weir yn Llandaf, ac i feysydd chwaraeon ysgol Glantâf, cyn mynd ymlaen drwy Barc Hailey a rhagddi i'r gogledd.

Eisoes sefydlwyd grŵp protest yn Llandaf i wrthwynebu'r argymhellion hyn, a chynhelir cyfarfod cyhoeddus yn neuadd y pentref yn Llandaf am 7.30pm nos Fercher cyntaf mis Ebrill.

Disgwylir prif swyddogion y cyngor ac ymgeiswyr yn yr etholiad cyffredinol i drafod y cynlluniau yn y cyfarfod ac i ateb pryderon pobol yr ardal.

Bwriedir ehangu'r ffordd osgoi i ganol y ddinas yn ail ran y cynllun.

Bydd mapiau a siartiau yn dangos union lwybr y ffordd arfaethedig i'w gweld yn neuadd y pentre o 5pm ymlaen ar y noson.

yDinesydd
Golygydd: Shân Emlyn, 5 Yr Hen Dŷ, Heol Fair, Llandaf, Caerdydd CF5 2EE. 0222 567438.
Cynhyrchu: Surrexit Cysylltiadau Torfol, 3 Parc Afon, Bridge Road, Ystum Taf, Caerdydd CF4 2JL 0222 578772; 0222 598243 (hysbysebu); fax 0222 567639. ©Y Dinesydd 1992
Rhif 182, Ebrill 1992. Dyddiad cyhoeddi 1 Ebrill 1992. Ffŵl Ebrill os credsoch chi'n gril stori a honno am ffordd osgoi Llandaf. Cydnabydir cymorth y Swyddfa Gymreig a Chyngor y Celfyddydau
Dyddiad olaf derbyn copi ar gyfer rhifyn Mai: 17 Ebrill 1992

*o dudalen 1*

Byddai'r Dinesydd Cenedlaethol yn ran o grŵp papurau Mirror Robert Maxwell, ac wedi gallu tynnu ar holl rwydweithiau newyddiadurol, marchnata a hysbysebu'r grŵp. Roedd yn fwriad hefyd gan Maxwell ddefnyddio staff y Dinesydd Cenedlaethol i wella'r sylw roddwyd i Gymru gan weddill papurau'r grŵp.

Dechreuwyd amau argymhellion Maxwell yn yr Haf 1988 pan gyflwynodd adroddiadau ariannol i bwyllgor y Dinesydd. Comisiynodd y pwyllgor gwmni KPMG Peat Marwick McLintock yng Nghaerdydd i brofi cywirdeb y ffigurau ac i'w cynghori'n ariannol trwy weddill y trafodaethau.

Datgelodd adroddiad cyntaf Peat Marwick amryfusedd yn ffigurau elw Maxwell ar gyfer y flwyddyn gyntaf. Eu casgliad hwy oedd y byddai'r Dinesydd Cenedlaethol yn gwneud colled yn hytrach nag elw yn y flwyddyn gyntaf o £160,000. Yn ôl y cytundeb arfaethedig rhwng pwyllgor y Dinesydd a Maxwell, byddai aelodau'r pwyllgor wedi wynebu colled ariannol bersonol wrth ddigolledu hanner y golled honno.

Yn sgil cyngor cyfreithiol pellach, penderfynodd pwyllgor y Dinesydd ddirwyn eu trafodaethau â Robert Maxwell i ben, a gwahoddwyd cwmni Detheridge i ymgymryd â chynhyrchu'r Dinesydd tan fis Mawrth y llynedd, gan roi terfyn – am byth – ar gynlluniau Maxwell a'r wasg Gymraeg.

## PERFFAITH BERDONEG



• *Branwen Gwyn a'i hathrawes biano Brenda Owen*

ENILLODD Branwen Gwyn o Dreganna Wobr Goffa Haddon gwerth £1500 am ragori mewn profion piano yn ystod 1991.

Mae ennill y wobr yn golygu y bydd Branwen, sy'n 14 oed ac sydd wedi bod yn canu'r piano er pan oedd yn 8, yn cael gwersi cyson gan diwtor personol yn y Coleg Cerdd Brenhinol yn Llundain.

Yn ogystal â'r piano, mae Branwen yn chwarae trwmped gyda Cherddorfa'r Sir ac Ensemble Symffonig De Morgannwg.

# Y MIS YN GRYNO

## GWYNFRYN AR EI FEIC



• *Hywel Gwynfryn a Siôn – yn holliach*

TEITHIODD HYWEL Gwynfryn dros 250 o filltiroedd o Ysbyty'r Brifysgol i Ysbyty Glan Clwyd yr wythnos ddiwethaf er mwyn codi arian i'r Ymddiriedolaeth Plant Sâl yng Nghymru.

Caiff yr arian a gesglir ei wario ar adnoddau fydd yn caniatau i rieni gael aros yn agos i'w plant sy'n cael triniaeth mewn ysbytai ledled Cymru.

Defnyddiodd Hywel, ac Anya ei wraig, gyfleusterau aros dros nos Tŷ Croeso yr Ymddiriedolaeth yn Ysbyty'r Brifysgol pan oedd Siôn, eu mab 4 oed, yn cael triniaeth am diwmor ar ei ymennydd y llynedd.

## PETER AR YR AGENDA



PENODWYD Peter Elias Jones i fwrdd rheoli cwmni teledu Agenda, cynhyrchwyr Heno. Collodd ei swydd fel Rheolwr Adloniant HTV ym mis Tachwedd ar ôl gweithio gyda'r cwmni am 21 mlynedd.

Croesawodd Rhodri Williams, un o sylfaenwyr Agenda, Peter Elias Jones i'r cwmni. Dywedodd "Mae arbenigrwydd, brwdfrydedd a phroffesiynoldeb Peter wedi bod o gyfraniad amhrisiadwy i deledu Cymraeg".

Dywedodd Peter Elias Jones ei fod yn gobeithio gallu ehangu cynnyrch Agenda i raglenni adloniant, ac i gynhyrchu mwy o raglenni Saesneg.

## LLYGAD AM LYGAD

WEDI I DDINESYDD mis Mawrth fynd i'r wasg, ymddangosodd tri o aelodau Cymdeithas yr Iaith o Gaerdydd gerbron ynadon y ddinas ar 26 Chwefror.


Hwn oedd y chweched tro i'r achos ddod gerbron y llys oherwydd diffyg darpariaeth ar gyfer achosion Cymraeg y troeon blaenorol.

Cafwyd Mair Stuart, Gill Stephen a Steffan Webb yn euog o ddifrod troseddol ar ôl paentio sloganau yn galw am ddeddf iaith ar siop optegydd Boots yn Heol y Frenhines ym mis Awst y llynedd. Fe'u dirwywyd £50 yr un, yn ogystal â chostau o £61 yr un.

Eisoes cyhoeddodd Mair Stuart nad yw'n fwriad ganddi dalu'r ddirwy, gan ddisgwyl cael ei charcharu oherwydd hynny.



## Y GORFFENNOL YN ARGOELI'N DDA I'R DYFODOL




GYDA CHYHOEDDIAD Awdurdod Addysg De Morgannwg bod ysgol gynradd Gymraeg newydd i'w hagor yn y Barri ym mis Medi, priodol hefyd yw dathlu penblwyddi Ysgol Gymraeg Sant Ffransis yn y Barri yn 40 oed, ac Ysgol Gymraeg Penarth yn 21 oed.

Cychwynnodd 15 o ddisgyblion yn ysgol Sant Ffransis ym 1952, rhif sy bellach wedi tyfu i 450 o blant.

Mae dathliadau penblwydd yr ysgol eisoes wedi cychwyn gyda pharti mawreddog a Chyngerdd Dathlu yn Neuadd Goffa y Barri ym mis Mawrth ar y cyd ag Ysgol Sant Baruc, gyda 450 o blant ar y llwyfan.

Bydd y dathliadau'n parhau ar 2 Mai yn y Dyffryn, gyda Ffair Fai yn y prynhawn a Chinio a Dawns gyda'r nos.

Sefydlwyd Ysgol Penarth yn sgîl llwyddiant Sant Ffransis ym mis Mawrth 1971 yng Nghogan gyda 45 o ddisgyblion a thri o athrawon. Erbyn heddiw mae dros 300 o blant yn yr ysgol, a thros fil o ddisgyblion wedi derbyn eu haddysg yno.

Adeiladwyd adeilad newydd sbon i'r ysgol ym 1976 – y tro cyntaf i adeilad pwrpasol gael ei adeiladu ar gyfer ysgol gynradd Gymraeg.

O'r cychwyn nod yr ysgol oedd dod yn ran annatod o dref Penarth. Yn ôl Howard Goodfellow, y prifathro ers y cychwyn, gwireddwyd hynny, ffaith a adlewyrchir mewn sylw gan frodor o Gogan ym 1971 "So you're the head of that Welsh school". Erbyn heddiw newidiodd ei gân a dweud "So you're the head of the Welsh school."

## O GWMPAS Y BYD AR FWRDD



AETH MENNA DAVIES o Strathnairn Street yn y Rhâth ar daith drwy rhai o brif ddinasoedd y byd mewn mater o hanner awr nos Iau ddiwethaf (26 Mawrth), gan brynu a gwerthu ar ei ffordd.

Roedd yn cymryd rhan yn ail raglen y gyfres gyfredol o Monopoli gyda Derec Brown, lle roedd jacpot o dros £1100 ar y bwrdd.

Er nad enillodd yr arian, bydd Menna, sy'n hanu o Flaenau Ffestiniog yn parhau i ddysgu Eidaleg pan nad yw'n gweithio gyda chleifion sy'n dioddef o lewcemia yn Ysbyty'r Brifysgol.

## Y DEWIS AR 9 EBRILL

GYDA'R YMGYRCH etholiadol yn rhygnu mlaen, dyma restr ymgeiswyr y pedair brif blaid yn etholaethau Caerdydd.

***De Caerdydd a Phenarth***
Thomas Hunter Jarvey (Ceid); Alun Michael (Llaf); PK Verma (Dem); Barbara Anglezarke (PC)
*Mwyafrif Llafur 1987: 4,574*

***Gogledd Caerdydd***
Gwilym Jones (Ceid); Julie Morgan (Llaf); Eve Warlow (Dem); Eluned Bush (PC)
*Mwyafrif Ceidwadol 1987: 8,234*

***Gorllewin Caerdydd***
Michael Prior (Ceid); Rhodri Morgan (Llaf); Jacqui Glasson (Dem); Penni Bestic (PC)
*Mwyafrif Llafur 1987: 4,045*

***Canol Caerdydd***
Ian Grist (Ceid); Jon Owen Jones (Llaf); Jenny Randerson (Dem); Huw Marshall (PC)
*Mwyafrif Ceidwadol 1987: 1,986*

***Bro Morgannwg***
Walter Sweeney (Ceid); John Smith (Llaf); Keith Davies (Dem); David Haswell (PC)
*Mwyafrif Llafur 1989: 6,028*

Bydd y Blaid Lafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ymladd yn frwd er mwyn ceisio ennill etholaeth Canol Caerdydd, a dadorseddu'r Ceidwadwr Ian Grist. I wyrdroi mwyafrif y Toriaid o ychydig yn llai na 2000 o bleidleisiau, bydd angen swing o 2.4% o blaid yr ymgeisydd Llafur, neu 3.9% o blaid y Democratiaid Rhyddfrydol.

***• Rhagolygon, tudalen 6***

# BLŴS BRYNIAU LLANTRITHYD

## JULI PASCHALIS YN CWRDD Â DANIEL J TRAVANTI

**ROEDD YN BRYNHAWN gwlyb, digon diflas ym mro Morgannwg, tra gwahanol, dybiwn i, i'r tywydd ar Sunset Boulevard, Los Angeles.**

Ond nid yn haul tanbaid California yr oedd y gynhadledd i'r wasg, yn anffodus! Yn lle hynny, yno yn nhafarn y Bush yn Llantrithyd, mewn cornel clyd, o flaen tanllwyth o dan coed, yr eisteddai Daniel J. Travanti, a ddaeth yn enwog fel Capten Frank Furillo yn y gyfres deledu lwyddiannus *Hill Street Blues*.

Yn wahanol i ni, roedd e wedi dotio at y glaw – ac yn gresynu na fedrid ei rannu gyda'i ran ef o'r byd yn Los Angeles, sydd wedi dioddef cyfnod o sychder ers tua chwe mlynedd.


Ar ôl gyrfa o 29 mlynedd mae e yma yng Nghymru i weithio ar gyd gynhyrchiad rhwng S4C a'r Unol Daleithiau, ar ffilm o'r enw *Christmas Stallion/Eira Cynta'r Gaeaf*. Cynhyrchir dwy fersiwn o'r ffilm – y naill yn Saesneg ar gyfer Gogledd America ac i'w marchnata ledled y byd, a'r llall yn Gymraeg.

Daw Daniel o dras Eidalaidd, ac mae'n meddu'r iaith honno; a doedd y Gymraeg ddim yn hollol ddieithr iddo chwaith. Wedi'r cyfan, bu ganddo athro lleferydd o'r enw John Daniel Davies, oedd wedi dysgu dwy frawddeg o iaith y nefoedd iddo – rhywbeth am wylio rhag lladd y ci!

Acyna, ac yntau yn llanc pedair ar bymtheg oedd, cafodd gyfle i chware rhan Morgan Evans yn *The Corn is Green*, pan yn fyfyriwr ym mhrifysgol Wisconsin.

Mae e'n llawn cydymdeimlad â'r ymdrechion sy'n cael eu gwneud i adfer yr iaith Gymraeg, wedi ei gyfareddu gan ei seiniau ac yn edrych ar S4C trwy lygaid ffafriol iawn, er na wyddai ddim am fodolaeth y sianel cyn cyfarfod â Peter Edwards, cynhyrchydd a chyfarwyddwr *Eira Cynta'r Gaeaf*.

Eglurodd wrth sgwrsio gyda chriw ohonom fod yn well ganddo gwmni anifeiliaid na phobol! Felly roedd wrth ei fodd yn cael y cyfle i chwarae rhan Alan Davies, mab i ffermwr sydd newydd farw, gan adael dyfodol y fferm a'r cobiau Cymreig a fegid gan y teulu yn y fantol. Gohebydd yw Alan, sy'n rhuthro ben ben o gwmpas y byd yn rhinwedd ei swydd.



Ei bolisi yw peidio ag ymglymu ei hun yn rhy ddwfn gydag unrhyw un nac unrhyw beth. Ond caiff ei hun yn gorfod dychwelyd i Gymru ar ôl bod oddi cartref ers ugain mlynedd. Yn y sefyllfa sy'n ei wynebu ar y fferm – gyda'r nith, y llysfab, a'r datblygwr tir lleol – rhaid iddo wynebu emosiynau nad yw wedi eu cydnabod ers blynyddoedd maith.

Denwyd Travanti at y stori y syth oherwydd "ei nodweddion amlwg o gariad, ffyddlondeb, brad ac antur".

"Rwy'n hoffi profi'r emosiynau i gyd", eglurodd. "Os nad oes 'na emosiwn i'w fynegi, pam ydw i yma yn y lle cyntaf?"

O'i brofiad personol, mae'n haws wynebu eich emosiynau wrth heneiddio (mae e dros ei hanner cant oed), ond roedd e hefyd yn cyfaddef ei fod yn fwy agored i'w frifo.

Bu'n gaeth i'r ddiod gadarn; ond trodd ei gefn ar hynny. Mae'n e'n hynod o ofalus o'r hyn mae'n ei fwyta – dim siwgwr, halen, olew, na fflwr gwyn. Cas ganddo fwg sigarets. Mae e wedi torri nôl ar ei gyflewnwad o gaffîn – o bedwar paned ar ddeg o goffi'r dydd, i ddau yn unig. Wnaiff e ddim cymryd unrhyw fath o ffodion ychwaith. "Dydw i'n gwneud dim i gyfrannu at fy niwed fy hun".



**LYNN JONES**

Buddsoddiadau
Yswiriant Bywyd
Pensiynau

FIMBRA

30 Highfields, Llandaf
Caerdydd CF5 2QB
Ffôn 0222 562816






***Duges, Tywysoges a Chyffur Epilio***

*ADDASIAD GARETH MILES O DRI O GLASURON Y DDRAMA EWROPEAIDD*

***DUGES AMALFFI (WEBSTER)***
***SERCH YW'R TEYRN (MARIVAUX)***
***MANDRAGORA (MACHIAVELLI)***

*Clawr Meddal, pris £7.95*

*Gwasg Taf, 99 Heol Woodville, Cathays, Caerdydd CF2 4DY*

## EIRY PALFREY YN SYLLU I'R DYFODOL



### ARIES

Mae Ebrill wastad yn fis da i chi, pan fo'r Haul yn eich arwydd, a dyw eleni ddim yn eithriad. Blwyddyn Newydd Dda i chi! Mi fyddwch chi'n dechrau mwy nag un pennod newydd gyffrous yn eich bywyd cyn bo hir, ac mae pethau'n edrych yn ardderchog yn ariannol.

### TAURUS

Cymrwch ofal o'ch iechyd y mis hwn, yn enwedig y gwddf a'r frest. Peidiwch â chael eich temtio i wisgo dillad ysgafn tan ddiwedd y mis beth bynnag yw'r tywydd – mae angen i chi gymryd gofal am sbel. Ar yr ochr bositif, mae llawer o ramant o'ch cwmpas.

### GEMINI

Falle'ch bod chi mewn paradwys ffŵl yr Ebrill yma, peidiwch â chymryd dim yn ganiataol, gan fod hwn yn gyfnod pan y gall pobol, sydd fel arfer mor ddibynnol â chraig yr oesoedd, eich camarwain. Mae'n bosib hefyd yr aiff llythyr pwysig ar goll.

### CANSER

Mi fydd hwn yn fis emosiynol iawn i chi, ac mae'n eitha posib y dwedwch chi, neu wnewch chi rywbeth byrbwyll fydd yn digio rhywun annwyl yn ddwfn iawn. Ceisiwch ymbellhau rhywfaint o'r sefyllfa a pheidio cymryd eich hunan gymaint o ddifri. Mae angen tipyn o hiwmor arnoch chi ar hyn o bryd.

### LEO

Fel rheol rych chi'n llawn ynni a brwydfrydedd, ond mae tipyn o'r felan arnoch chi'r Ebrill hwn, cymrwch hoe i ymlacio rhywle – mi fyddai ychydig ddyddie o wylie yn yr haul yn gwneud byd o les i chi. Peidiwch ag ymddiried yn eich lwc ar hyn o bryd – fe allai eich gadael i lawr.

### VIRGO

Dyw pethau ddim yn mynd yn rhy dda ar y ffrynt garwriaethol ar hyn o bryd – ydych chi wedi bod fymryn bach yn rhy feirniadol o'ch annwylyd falle? Twt twt! Beth am drafod eich problemau'n synhywrol a phwyllog heb golli'ch limpyn – y naill na'r llall ohonoch chi – i glirio'r awyr?

### LIBRA

Mae pethau'n mynd yn dda iawn mewn pob adran o'ch bywyd, fe ddylai hwn fod yn fis prysur a buddiol iawn, ond mae 'na beryg y byddwch chi'n gwneud gormod a cholli'r holl dir enilloch chi trwy afiechyd oherwydd gor-weithio. Cymrwch bwyll Libra, a gwnewch be sydd raid – a dim mwy.

### SCORPIO

Mae'ch lwc a'r ochr ramantus o'ch siart ar i fyny'r mis hwn, ond beth yw'r gwario gwirion 'ma Scorpio? Mae 'na fory cofiwch, ac mae eisie ambell i geiniog ar gyfer diwrnod glawog. Cymrwch bwyll, mwynhewch eich cyfoeth ar bob cyfri, ond cofiwch fod biliau eitha sylweddol ar y ffordd i chi.

### SAGGITTARIUS

Mae'n bosib y byddwch chi'n mynd i fwy nag un dathliad y mis 'ma – priodas, parti penblwydd neu fedydd. Mwynhewch, ond ara deg ar y lysh rhag ofn i chi gael eich dal yn gyrru o dan 'ddylanwad'. Mae'n bosib y bydd eich cartre'n costio'n ddrud i chi'r mis 'ma.

### CAPRICORN

Rhowch sylw i'ch sefyllfa ariannol nawr, ac os bydd raid i chi arwyddo dogfen da chi darllenwch y print mân yn fanwl. Fe all ffrae godi gydag aelod o'ch teulu os na fyddwch chi'n ofalus – chi sy'n iawn wrth gwrs, ond bydd neb yn fodlon derbyn hynny, gwell cyfaddawdu felly.

### AQUARIUS

Byddwch yn barod am yr annisgwyl y mis hwn, yn enwedig ar ôl y 7fed a chewch chi mo'ch siomi. Mae peryg y bydd pob math o bethau'n mynd o chwith ar y funud ola – rhwystredig iawn. Yr unig ateb yw bod yn amyneddgar ac yn hyblyg – dau beth sy'n anodd i chi eu wneud – ond triwch!

### PISCES

Ddechrau'r mis fe all pethau fod yn eitha anodd yn eich byd personol, pobol yn fyr eu amynedd ac yn eich camddeall chi. Ar yr ochr bositif mi ddylai hwn fod yn fis llewyrchus iawn yn ariannol, a fe ddylai'ch iechyd fod mewn cyflwr ardderchog. Cyfrwch eich bendithion!



# FFURFAFE GWLEIDYD

EIRY PALFREY
DYFODOL ARWE



Ac yn rhyfedd iawn f
Paddy Ashdown a Da

pum

Bydd P
Dafydd
bob sia



Major yn
gwneud dr
ola'r ymgyr
gyhoeddiad

Mae Paddy Ashdown yn ddibynnol iawn ar fympwy'r
gyffredinol tuag ato yn ystod y cyfnod. Mae'n ymdda
ddiweddar wedi effeithio'n negyddol ar ei hygrededd pol
llawer o lwyddiant i Paddy rwy'n ofni, na'i ddilynwyr. Wr
bydd llwyddiant mewn ambell boced fan hyn a fan draw, ond dim
y swae mewn brwydr glos.

Mae siart penblwydd Dafydd Wigley yn addo newidiadau sylfae
gwmpas yn enwedig yn gyhoeddus, a fe ddylai ddychwelyd i Sa
mae'n fwy anodd asesu beth fydd hynt Plaid Cymru. Mae'n eitha
Steffan, ac un arall o bosib – er mai brwydr glos iawn fydd honn
Ond yn sicr bydd proffil Plaid Cymru'n codi cryn dipyn o ganlyniad
llwyddiant mwy parhaol o fewn y dair blynedd nesaf. Datganol

**Mae'r sêr yn awgrymu felly, ar ôl brwydr glos mai Kinnock**
**mwyafrif bach o 10 - 20 aelod efallai; siomedigaethau ar y cyf**

# FEN Y YDDION

## FREY YN RHAGWELD RWEINWYR Y PLEIDIAU



**Wrth i'r Etholiad agosau mae 'Arbenigwyr' o bob lliw a llun yn proffwydo, yn damcaniaethu ac yn darogan pa blaid fydd ar y brig trannoeth yr Etholiad.**

**Ond yn anhebyg i'r poliau piniwn a'r arbenigwyr dyw astroleg byth yn newid, ac o edrych ar siartiau'r arweinwyr a'u cymharu â siart diwrnod yr Etholiad a siartiau eu penblwydd mae'n bosib darogan pa arweinydd fydd yn ein tywys yn ôl i San Steffan.**

Mi fydd yr Haul yn arwydd Aries ar 9 Ebrill – diwrnod yr Etholiad, sy'n argoeli'n ardderchog i bob un a anwyd dan arwydd yr Hwrdd. Aries yw arwydd yr Arweinydd naturiol – tybed felly a yw'n gryf yn siart un o'r arweinyddion gwleidyddol?

d iawn fe anwyd John Major o dan arwydd Aries, a Neil Kinnock hefyd, a chredwch neu beidio dyna arwydd a Dafydd Wigley!

Ond mae mwy i'r cyd-ddigwyddiad na hynny, maent ill pedwar yn dathlu eu penblwydd o fewn pum diwrnod i'w gilydd – a dim ond dwy flynedd sydd rhyngddynt o ran oedran.

Bydd Paddy Ashdown yn 51 ar 27 Mawrth, Neil Kinnock yn 50 ar yr 28ain, John Major yn 49 ar y 29ain, a Dafydd Wigley yn 49 ar 1 Ebrill! Sôn am frwydr glos! Yn astrolegol bu'n rhaid edrych yn fanwl iawn ar bob siart i weld a fyddai'r manylion yn taflu unrhyw oleuni ar y sefyllfa.

Mae pethau'n glos iawn rhwng y ddwy brif blaid, ond mae Kinnock ar y blaen o ryw ychydig – mae llwyddiant mawr o'i gwmpas yn ystod cyfnod yr Etholiad. Ar hyn o bryd all e wneud dim o'i le. Mi fydd hefyd yn dathlu ei benblwydd yn 50 ar y 28ain – mae hynny'n garreg filltir fawr ac yn debygol o'i roi mewn hwyliau da yn emosiynol.

Ar y llaw arall mae'n bosib y bydd John ajor yn gwneud neu'n dweud rhywbeth fydd yn neud drwg iddo'n wleidyddol yn ystod pythefnos r ymgyrch – neu fe fydd rhyw ddigwyddiad neu eddiad yn cael yr un effaith.



npwy'r pleidleiswyr, ac ar yr agwedd ymddangos fod y sgandal edd politicaidd – dim yr. Wrth gwrs ond dim digon i ddal

u sylfaenol yn ystod 1992. Mae llawer o lwc o'i lyd i San Steffan ei hun heb unrhyw drafferth, ond 'n eitha posib y bydd 'na dri aelod o'r Blaid eto'n San d honno, gydag ail-gyfri'r pleidleisiau'n bosib iawn. nlyniad i'r etholiad hwn, caiff y tir ei fraenaru ar gyfer atganoli efallai?

**Kinnock aiff â hi o drwch blewyn, gyda phrin digon i ffurfio Llywodraeth – ar y cyfan i'r Democratiaid Rhyddfrydol, a bydd Plaid Cymru yn araf ymgyfnerthu.**

## MENNA'N MANYLU

MENNA MEDI

MAE BOB amser yn braf derbyn llythyron gan deulu neu ffrindie, ond brafiach byth ydy eu derbyn o wledydd pell.

Wedi ymweld â chartre Dic Thomas (o Ddyffryn Ceiriog yn wreiddiol) a'i wraig yn Ontario ddwy flynedd yn ôl, deni'n dal i gadw mewn cysylltiad, a difyr i mi oedd derbyn llythyr ganddo efo hanesyn am sefydlu tre o'r enw Bala yn Musquash Falls yng Nghanada ym 1868.

Y person cyntaf i ymfudo o'r Bala (Cymru) i Bala Musquash Falls oedd Thomas W Burgess a'i deulu. Hwyliodd ef a'i deulu yno ar long stêm o'r enw Wenona.

Sefydlodd gymuned yno, gan brynu melin lifo a swyddfa bost. Ym 1872 cysylltwyd ffordd Musquash â Bala, a daeth yn gyrchfan dwristaeth boblogaidd. Y Dr AM Burgess, mab y Burgess gwreiddiol, oedd maer cynta'r dre.

Ail-enwyd Musquash Falls yn Bala Falls gan Burgess, a dalfyrrwyd wedyn i'r enw cryno Bala.

Gan fod llawer o Indiaid Cochion yn byw yn yr ardal, credid mai enw Indiaidd oedd e, ond mae Dic wedi argyhoeddi nifer helaeth mai "o wlad y bryniau" y daeth yr enw.

Yn Jerwsalem mae Menai, un o efeilliaid fy chwaer, yn gweithio'n wirfoddol. Mae'n dysgu plant sydd â phroblemau corfforol a meddyliol mewn canolfan ar Fynydd yr Olewydd.

Pum teulu yn unig sy'n byw ar y mynydd, ond mae tua 120 o drigolion yn byw yno. Gan fod cymaint o gyd-briodi a mewnfridio, mae llawer o broblemau corfforol ymhlith y bobol.

Cyfarfu Menai ag Iddewes sy'n gantores broffesiynol ac sy'n ymddiddori yn y canu Celtaidd.


Cyfarfu hefyd ag Esgob St George yn nwyrain Jerwsalem. Roedd ei gyndeidiau wedi ymfudo i Batagonia ar y Mimosa, a'i nain yn byw yno hyd yn ddiweddar yn medru ond y Gymraeg. Ac yn St George mae Arthur Roberts, Esgob Llanelwy yn bugeilio am ddau fis o'r flwyddyn.

Mae Meinir, chwaer Menai, yn dysgu arlunio Batik i bobol Nagpur yn yr India. Teithiodd i weld y Taj Mahal ysblennydd, Katmandu, Nepal a Calcutta – lle gwelodd y Fam Teresa.

Yn nhalaith ddatblygiedig Korela, mae cyfradd llythrennedd dynion a merched yn 100 y cant; ond mewn llefydd fel Goa 63 y cant yw'r gyfradd i ddynion a 43 y cant i ferched. Eto, tasg gynta pob rhiant ar ôl geni merch yw cael gwared ohoni drwy briodas. Diolch am Gymru dduda i!

# CROESAIR AP LEWSYN

## Rhif 118 Ebrill 1992



### Ar Draws

5. Bwriadu paratoi ar gyfer y wasg (6)
8. Hancesi wedi eu plygu yn nes i Dei (8)
9. Gan bendefig Dyfed y cewch gyngor i fod yn ofalus (3,4)
10. Cythrwfl yr elfennau (5)
11. Ymgiprys y beirdd yn o sur am y marciau (9)
13. Mae'n dotio digon i roi gwin iddo... (8)
14. ...ac fe all Lona fynd y tu faes iddo (6)
17. Y dyheu i'w difa (3)
19. Ai hi oedd y blonde gynharaf yn ein hanes? (3)
20. Mae yn rheoli ei farch (6)
23. Callineb a ddatblyga pan fydd Beth ni yn dod i oed (8)
26. Gwahaniaeth barn sy'n bodoli parthed hawl y deng Dafydd (9)
28. Elfennau ansylweddol sy'n deor o wy Non (5)
29. Yr hyn a wna cudd-weithredwyr (7)
30. Bydd eraill mewn cynnwrf yn galw am ddienyddio â cherrig (8)
31. Heb orfod dioddef penyd (6)

### I Lawr

1. Yn perthyn i ddarn o dir sy'n gleisiog? (6)
2. Geirio N yn cyfleu ystyr cyferbyniol i arwyddocad arferol y geiriau (7)
3. Aiff dyn ddim o'i le heb gysgod (9)
4. Llinyn i bwytho (6)
5. Byddai yn llesgau wrth roi trefn ar chwyn a gai o gwmpas (8)
6. Gwaith digrefft (5)
7. Yr adar gwyllt sy'n seinio'r dôn a glyw (8)
12. Ymyl gwefus ag awch arni (3)
15. Wedi corddi'r llefrith, fe wnaeth y lle'n llanast (4,5)
16. Esgynasai i safle uwch drwy ei ymdrechion (8)
18. Fe wna Abel sŵn i ddangos ei dostrwydd (8)
21. Calon ei huodledd yw'r cyseinedd hyfryd sy'n taro'r glust (3)
22. Os, yn ein aflerwch, y gwnawn hyn, rhyw led-awgrymu y byddwn (7)
24. Ffyrnau poethion i roi calch brwd (6)
25. Llumanau iddi osod allan ei barn yn glir (6)
27. Y cleisio y gwelwyd ei effaith yn 1 i lawr (5)

### Cystadleuaeth Rhif 117

Derbyniwyd deuddeg ymgais, ond dim ond chwech ohonynt oedd yn hollol gywir. Yr un a dynnwyd ar hap o'r pentwr oedd eiddo Michael Francis, Preston Avenue, Casnewydd, ac efe a gaiff y tocyn llyfr y mis hwn.

Y pump datrysydd cywir arall oedd Nigel Ruddock, Blaenau Gwent; Mrs Megan Wyn Jones, Bangor; Mrs Huana Simpson, y Bontfaen; Mrs HM Ethall, Rhiwbeina, M Morgan, Treganna.

### Cystadleuaeth Rhif 118

Tocyn llyfr £5 fel arfer. Eich enw a'ch cyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd erbyn 18 Ebrill.

### Datrysiad Rhif 117



# HEL Y TWRCH TRWYTH I BARIS

SIÂN GRUFFYDD

AR FY NGWAETHA, mae'n rhaid i mi gyfaddef fy mod i'n dueddol o fod yn reit gartrefol o gwmpas Gŵyl Dewi. Wedi dweud hynny, doedd dim rhaid gofyn ddwywaith pen gefais gynnig fel aelod o gwmni dawns Twrch Trwyth i droi fy ngolygon tuag at Ewrop, ac ymuno â Chymdeithas Gymraeg Paris yn eu dathliadau Gŵyl Dewi hwy.

Hon oedd y daith dramor gyntaf i'r Twrch ers i ni ddod yn fuddugol yng Ngŵyl Ban-Geltaidd Cill Airne ym 1988.

Gadawsom am Ffrainc cyn toriad gwawr ar 26 Chwefror, oedd yn gadael tridiau i ni werthfawrogi swyn a chyfaredd gwanwyn ym Mharis cyn y dathliadau ar y nos Sadwrn ganlynol.

Mi fentra i ddweud nad dwy ran o dair i fyny Tŵr Eiffel – tra'n disgwyl am y lifft i'n cludo i'r copa – yw'r lle mwyaf arferol i ddawnsio Tŷ Coch Caerdydd; ond roedd gennym gerddor, cynulleidfa, digon o ddawnswyr a digon o amser. Felly pam lai?!

Cawsom wedyn ddawnsio ar bnawn heulog bendigedig yng ngerddi Versailles, a chynulleidfa frwdfrydig o blith yr ymwelwyr â'r palas wedi ymgasglu wrth glywed ein cerddorion yn canu rhesi ar resi o alawon dawns Cymreig.

Roedd hi mor braf i'w gweld yn mynd i gymaint o hwyl â ninnau wrth fwynhau'r gerddoriaeth.

Roedd bwrlwm y sgwâr o flaen Canolfan Pompidou yn le delfrydol ar gyfer ein hymarfer olaf ar y prynhawn Sadwrn, a denwyd cryn nifer yno hefyd i wylio dawnsfeydd Cymreig. Daeth dyn o wlad y Basg atom yn llawn brwdfrydedd pan welodd ni'n dawnsio Clawdd Offa – ei gweld yn hynod o debyg i ddawns o'i wlad ef.

Daeth y nos Sadwrn yn rhy fuan o'r hanner – y gwyliau ar ben a'r gwaith yn dechrau!

Roedd bron i 90 yn bresennol yn y cinio Gŵyl Dewi – llawer yn fwy nag arfer mae'n debyg. Ac eleni am y tro cyntaf roedd yno nifer o rai sy'n dysgu Cymraeg, Llydawyr yn eu plith, yn ogystal â Chymry ifanc sy'n gweithio ym Mharis.

Cawsom groeso brwdfrydig, a doedd dim rhaid gofyn dwywaith i'r gynulleidfa ymuno yn y twmpath. Mae hynny bob amser yn arwydd da!

Ac mae rhannu yn y miri o fewn cyrraedd unrhyw un sy'n darllen sydd wedi chwarae â'r syniad o ymuno â chwmni dawnsio gwerin.

Mae Twrch Trwyth yn croesawu aelodau newydd (yn enwedig dynion), rhai di-brofiad a phrofiadol. Rydym hefyd yn chwilio am gerddorion – ffidil, telyn a phibau yn arbennig.

Mae rhaglen lawn o'n blaenau o hyn at yr haf, ac felly'n adeg da i brofi'r bwrlwm dawnsio gwerin. Rydym yn ymarfer yng Nghlwb Ifor Bach o 7.30pm ymlaen bob nos Iau.

Os oes gennych ddiddordeb dod atom, ffoniwch Dewi Rhisiart ar 233209 neu Nerys Curig ar 554763 neu 397951.


## HYN – A DIM LLAI

### DYMA ANGHENION SYLFAENOL YR IAITH GYMRAEG A'R CYMUNEDAU

**BYDD YMATEB Y PLEIDIAU GWLEIDYDDOL I'R ANGHENION HYN YN DANGOS MAINT EU HYMRWYMIAD I'R GYMRAEG A HOLL GYMUNEDAU CYMRU.**

**1. ADDYSG**
(a) CYFUNDREFN ADDYSG ANNIBYNNOL I GYMRU WEDI EI SEILIO AR EGWYDDORION ADDYSG GYMUNEDOL
(b) BLOC GRANT BLYNYDDOL I PDAG A FYDDAI'N EI ALLUOGI I DDATBLYGU AC EHANGU DARPARIAETH ADDYSG GYMRAEG O OED MEITHRIN I OEDOLION O FEWN EIN CYMUNEDAU

**2. RHYDDID I'R IFANC**
SIARTER '91 FYDDAI'N RHYDDHAU EGNI POBL IFANC FEL Y GALLANT GYFRANNU'N ADEILADOL AT DDYFODOL EU CYMUNEDAU. GOLYGA HYN ROI LLAIS A DYLANWAD IDDYNT MEWN LLYWODRAETH LEOL, A CHYNLLUNIO FOD YNA STRATEGAETH FANWL I SICRHAU TAI A GWAITH I BOBL IFANC O FEWN EU CYMUNEDAU

**3. DEDDF EIDDO**
DEDDF EIDDO I GYMRU, FYDD YN SICRHAU TAI AR RHENT I BAWB SYDD EI ANGEN (O'R STOC DAI PRESENNOL) YN RHOI BLAENORIAETH I BOBL LEOL YN Y FARCHNAD BREIFAT, AC YN RHEOLI DATBLYGIADAU DI-ANGEN A NIWEIDIOL

**4. DEDDF IAITH**
DEDDF IAITH NEWYDD WEDI EI SEILIO AR YR EGWYDDOR O ADFER Y GYMRAEG FEL NORM YNG NGHYMRU A LLE BYDD DEFNYDD O'R IAITH WEDI EI SEILIO NID YN UNIG AR HAWL YR UNIGOLYN OND AR SAIL HAWL CYMUNED

| ANGHENION Y GYMRAEG | X |
|---|---|

DROS IAITH – DROS GYMUNED

YMUNWCH Â CHYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG: PEN ROC, RHODFA'R MÔR, ABERYSTWYTH 0970 624501

# MÊT Y PLANT BACH

CATRIN LLOYD ROWLANDS

HEN FORE digon llwydaidd oedd hi pan alwais i draw i Si-Lwli, y feithrinfa i blant bach yn Nhreganna, babi Ruth Parry a aned flwyddyn yn ôl.

Ond unwaith i mi fynd drwy'r drws ffrynt, dyma newid byd yn llwyr. Lliw croesawus tusw o ddaffodils yn y cyntedd yn codi calon yn syth. Ac yn fwy na dim roedd sŵn lleisiau bach ifainc yn siarad bymtheg y dwsin ac yn chwerthin dros y lle yn donig i unrhyw un ar fore mor ddiffrwt.

Ar 2 Ebrill mae Si-Lwli yn dathlu ei benblwydd cyntaf, ac roedd y lle eisoes yn dechrau byrlymu gyda miri'r parti dathlu.

Ar ôl 18 mlynedd yn y BBC, a chwe mlynedd cyn hynny yn dysgu yng Ngaherdydd a Lybia, penderfynodd Ruth droi i fyd busnes ac agor Si-Lwli.

Pan gyrhaeddais i roedd Ruth ar fin cychwyn i'r Gogledd i ddechrau ar y dasg o ddenu pleidleiswyr Meirionnydd Nant Conwy i'w hethol yn aelod seneddol ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol yn yr etholiad cyffredinol. Ond cyn mynd roedd hi a'r merched eraill sy'n gwarchod – Sonia, Linda a Karen – wrthi'n brysur yn paratoi'r plant ar gyfer diod a phrydyn sydyn blasus ganol bore. Tameidiau bach o fara brown maethlon gyda rhywbeth bach blasus, melys ym mhob un.

"Welwch chi ddim fish fingers yn Si-Lwli," meddai. "Bwyd ffres, maethlon maen nhw'n ei gael – llysiau a ffrwythau a phethau felly".

Ar ôl paned, dyma grwydro'r tŷ a mynd allan i'r ardd gefn. "Rydw i'n gredwr mawr mewn digon o awyr iach" meddai Ruth, "ac mi rydan ni'n mynd allan i fan hyn ar ddiwrnod braf o aeaf hyd yn oed – dim ond gofalu fod y plant wedi eu gwisgo'n glud, maen nhw wrth eu boddau. A weithiau da'n ni'n mynd i'r parc ar draws y ffordd i fwydo'r hwyaid yno".



Ym mhobman mae lluniau o bob math, gan gynnwys Blodau Haul enwog Van Gogh. "Mae'n bwysig bod y plant yn cael pob math o brofiadau" dwedodd Ruth wrthai, "ac erbyn iddyn nhw fynd i'r ysgol rydw i'n gobeithio y byddan nhw'n nabod eu lliwiau, yn deall rhifau o un i ddeg, ac yn gallu sgwennu eu henwau".



"Ac efo plant bach, mae'n bwysig eu bod nhw yng ngolwg pethau sy'n hardd a deniadol, ac o ansawdd neis, a'u bod nhw hefyd yn cynefino â gweld pethau neis fel llun Van Gogh".

Erbyn y bydd Ruth nôl o'r Gogledd, mi fyddwn ni gyd yn gwybod a fydd hi ar fin gadael am Dŷ arall yn Llundain. Ond ni fyddai symud yn amharu ar y gofal sydd yn Si-Lwli. "Rydw i wedi bod mor ffodus efo'r genod sy gen i yma. Ac rydw i'n teimlo'n falch ofnadwy bod ni'n pedair yn dal yma ar ôl blwyddyn. Mae'n amlwg ein bod ni'n dod ymlaen efo'n gilydd" meddai Ruth Parry – y wraig fusnes a'r gwleidydd?

Na, mêt y plant bach faswn i'n ei galw hi.


## Rhaglenni Acen i Ddysgwyr Profiadol

### Saith ar y Sul

(BBC Cymru)
Newyddion yr wythnos ar ffurf syml bob nos Sul am 7.10pm ar S4C

### Bwrw 'Mlaen

(Hel Straeon)
Un o raglenni cylchgrawn mwyaf poblogaidd S4C bob nos Iau am 7.30pm.
Mae dros 7,000 eisoes wedi cymryd rhan yn y cystadleuthau! Beth am ymuno â'r hwyl?

acen
BWRDD DATBLYGU CYMRU WLEDIG
DEVELOPMENT BOARD FOR RURAL WALES

S4C

*Cofiwch! Mae nodiadau ar gael ar gyfer y ddwy gyfres. Cysylltwch ag Acen, Tŷ Ifor, 1 Stryd y Bont, Caerdydd 0222 664555*

CAERDYDD
ADRAN Y GYMRAEG

**Darlith Goffa Islwyn**

6 Mai 1992 am 6 o'r gloch

***"Garedig Ysbryd" Golwg ar Ganu Elfed***

**Darlithydd: Mrs Branwen Jarvis MA**

Ystafell 2.3 Adeilad y Dyniaethau, Colum Road
Prifysgol Cymru Caerdydd
Estynnir Croeso Cynnes i'r cyhoedd.

*Ymholiadau: (0222) 874843*

Prifysgol Cymru, Coleg Caerdydd
Adran Efrydiau Allanol, Ysgol Hanes ac Archaeoleg
**Ysgol Ddeuddydd**

***AGWEDDAU AR HANES CYMOEDD DE-DDWYRAIN CYMRU***

***Traddodir y darlithoedd gan:***
*Dr D R Johnston, Yr Athro Emeritus Glanmor Williams, Dr Bill Jones, Dr Siân Rhiannon Williams, Mari Williams, Yr Athro Hywel Teifi Edwards, Yr Athro Emeritus Ieuan Gwynedd Jones, Yr Athro Emeritus Ceri W Lewis*

**Dydd Mercher a Dydd Iau, 29 a 30 Ebrill 1992**
**am fanylion pellach cysylltwch â Dr J Gwynfor Jones, Adran Efrydiau Allanol, 38 Heol y Parc, Caerdydd CF1 3BB erbyn 14 Ebrill**
**Ffôn 752063**

# y Calendar

**1 EBRILL**
Merched y Wawr Radur.
Ymweld ag archfarchnad Tesco, Rhydyfelin

**3 EBRILL**
Cymrodorion Caerdydd
Ymweliad gan Gymrodorion y Barri

**4 EBRILL**
Meseia ar y pryd, 7.30pm yn Minny Street

**6 EBRILL**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd

Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys

**7 EBRILL**
Cymdeithas Minny Street
Triawd o Eglwys Dewi Sant

**8 EBRILL**
Llafar a Chân
Cymdeithas Cydadrodd Ebeneser

**10 EBRILL**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd
Cyfarfod Blynyddol

**13 EBRILL**
Merched y Wawr Caerdydd
Ambell Drysor gyda Mary Wiliam

**15 EBRILL**
Clwb Cam Ymlaen

**17 A 18 EBRILL**
Ysgol Basg Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Canolfan Gymraeg Merthyr Tudful

**18 EBRILL**
Bob Delyn a'r Ebillion
Clwb Ifor Bach

**27 EBRILL**
Cyfarfod Cell Caerdydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, 8pm Clwb Ifor Bach

**29 EBRILL**
Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro
Y Parch Elfed Williams

**30 EBRILL**
Cymdeithas Ieuenctid Hŷn Caerdydd
Noson gyda'r Brodyr Williams (Wadlo)
8pm Clwb Ifor Bach

**2 MAI**
Ysgol Gymraeg Sant Ffransis
Dathlu'r Deugain
Cinio a Dawns, y Dyffryn

**4 MAI**
Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys

**5 MAI**
Cymdeithas Minny Street
Emyr Currie-Jones

**6 MAI**
Merched y Wawr Radur
Tenovus, Marian Arthur Jones

**11 MAI**
Merched y Wawr Caerdydd
Gwyneth a Hywel Jeffries

**Manylion ar gyfer y Calendar at Lynn Jones, ffôn 562816**


YSGOL GYMRAEG
S^T FFRANSIS, Y BARRI

**DATHLU 40 MLYNEDD**

***FFAIR FAI a CHINIO A DAWNS YN Y DYFFRYN 2 MAI 1992***

*TOCYNNAU £25*

**MANYLION 0446 733855**


# DEUD FY NEUD
## Gadi Llwyd

### YN CAEL DEUD EI DDEUD Y MIS HWN MAE JOHN ALBERT EVANS O YMDDIRIEDOLAETH NANT GWRTHEYRN

Bu datgelu'r newyddion trist bod y Ganolfan Iaith Genedlaethol yn wynebu dyledion o bron i £500,000 o ddiddordeb mawr i'r genedl ym mis Mawrth, a bu bron i bob papur newydd, rhaglen radio a theledu roddi sylw dwys i'n problemau.

Un cwestiwn oedd o ddiddordeb i bawb, sef sut yn y byd roedd y sefyllfa yma wedi datblygu, a phwy oedd yn gyfrifol?

Mae'r ateb i ran gyntaf y cwestiwn yn amlwg – y penderfyniad i brynu gwesty Plas y Pistyll i'w ddatblygu'n westy hyfforddi ac yn westy cyfforddus gyda'r gobaith i greu elw sylweddol i gynnal y Ganolfan Iaith.

Mae'n amlwg i bawb bellach bod y fenter wedi bod yn fethiant, ond ar hyn o bryd mae'n fater cyfreithiol ar bwy mae'r baich ariannol yn disgyn. Fodd bynnag mae'n gysur mawr i'r ymddiriedolaeth i dderbyn cymaint o ymateb cadarnhaol o bob cwr o'r wlad.

Eisoes derbyniwyd symiau sylweddol o arian oddi wrth garedigion yr iaith sy'n benderfynol o weld parhâd a ffyniant y Ganolfan yn Nant Gwrtheyrn.

Dro ar ôl tro rydym wedi clywed pobol yn dweud "Rhaid i Nant Gwrtheyrn barhau". Clywch clywch, meddaf innau. Canolfan i ysbrydoli ydy'r Nant, a bellach mae yno filoedd o ddysgwyr brwd yn tystio i'r ffaith i'r pentref anghysbell rhamantus hwn eu tanio i feistroli'r Gymraeg.

Bu'r Nant mewn trafferthion ariannol o'r blaen, ond oherwydd cyfraniadau hael a hyder pobol ym mhob rhan o'r wlad yn nyfodol y Ganolfan a'i bwriadau, llwyddwyd i oresgyn y problemau.

Rwyf yn llawn mor hyderus y tro hwn hefyd. Rhaid cofio taw nid canolfan yr ymddiriedolaeth yw Nant Gwrtheyrn, ond canolfan y genedl gyfan.

Hoffech chi tybed ein helpu mewn unrhyw ffordd? Os hoffech, byddwn yn dra diolchgar i glywed oddi wrthych.

**Dewch yn Gadi-Ffan, a lleisio'ch barn. Sgwennwch ata i dan ofal y Dinesydd, Parc Afon, Bridge Road, Ystum Taf, Caerdydd CF4 2JL**

# HEL MEDDYLIAU

## HUW ETHALL

Mae'n iawn i sôn amdanoch chi a minnau fel Ffŵl Ebrill, ond beth feddyliech chi o rywun yn galw Duw yn ffŵl?

Paul, y diwinydd mawr ei hun sy'n dweud felly amdano. Falle nad yw'n dweud hynny'n blwmp ac yn blaen, ond yn ei lythyr at eglwys Corinth mae'n sôn am 'ffolineb Duw'. "Oherwydd y mae ffolineb Duw yn ddoethach na dynion" meddai Paul. Od, yntê?

Mae'r Beibl yn sôn digon am ffyliaid, wrth gwrs. Os sôn am y natur ddynol fel y mae, ni all osgoi'r brid arbennig hwnnw. Dywed Salm 14 am i ffŵl yw'r sawl sy'n gwadu bodolaeth Duw: "Dywed yr ynfyd ynddo'i hun, Nid oes Duw". Nid dyn anwybodus, anllythrennog sy'n haeru'r fath beth, ond y ffŵl.

Yn y Testament Newydd mae sôn am y ffarmwr da ei fyd yn anfodlon ar faint ei ysguboriau ac yn adeiladu rhai mwy. Peth call i'w wneud ar yr olwg gyntaf, ond sôn am ffarmwr nad yw'n ystyried neb ond ef ei hun mae Iesu. Condemnio hunanoldeb a'r ysbryd 'fi gyntaf a fi olaf' yw pwrpas dweud y ddameg.

Ond i ddod nôl at ffolineb Duw. Onid sôn am ei ddoethineb fyddai orau? Mae Paul yn fwy beiddgar na Iesu ei hun wrth sôn am y fath beth. Sôn am Groes Crist y mae wrth sôn am ffolineb Duw, a cheisio egluro wrth aelodau eglwys Corinth sut mae Duw yn gweithio yn y byd 'ma. Rhaid cael ambell un felly o hyd i ddatrys y dirgelwch mawr hwnnw. Mae Duw, meddai Paul, yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol i ffyrdd dynion. Taro a lladd gelynion wna dynion; marw drostynt wna Crist. Ffŵl onide?

I ddyfynnu Paul yn gywir: "Ond pethau ffôl y byd a ddewisodd Duw er mwyn cywilyddio'r doeth, a phethau gwan y byd a ddewisodd Duw i gywilyddio'r pethau cedyrn, a phethau distadl y byd a phethau dirmygedig a ddewisodd Duw, y pethau nid ydynt i ddiddymu'r pethau sydd."

Dathlwn y Pasg y mis hwn – dathlu digwyddiad cwbl groes i reswm. Dathlu'r Atgyfodiad. Credai'r sawl a oedd yn gyfrifol am groeshoelio Iesu, a'r sawl a gyflawnodd y weithred wrth gwrs, y byddai diwedd arno unwaith ac am byth. Ffyliaid oedd pawb a gredai'n ots.

Ond sonia'r Pasg am Iesu byw. Wedi'r croeshoeliad gwelodd rhywrai Ef. Pwy tybed oedd y ffyliaid y Groglith cyntaf hwnnw?

# Annwyl Ddinesydd

## TWT TWT DDINESYDD!

Hoffwn ymateb i'r sylwadau yng Ngholofn Shân yn rhifyn mis Mawrth o'r Dinesydd. Rydym ni, fel y ferch yn eich stori, newydd ymgartrefu yng Nghaerdydd, ac wedi cael croeso heb ei ail yng nghapel y Crwys.

Alla i ddim amau gwirionedd y stori, ond mae'n anodd gen i gredu fod unrhyw un yn cael ei throi o'r capel oherwydd ei gwisg. Mae nifer fawr o ieuenctid yn mynychu'r oedfa ac yn gwisgo pob math o ddillad, gan gynnwys jins.

Tybed ga i gynnig fod y ferch dan sylw yn rhoi cynnig arall arni, a hyderaf y bydd y croeso a gaiff gyffelyb i'r hwn gawsom ni yn ystod y saith mis diwethaf.

***Bethan, Huw a Geraint Herbert***
***(28, 30 a 6 mis oed)***

Roedd yn flin iawn gan bawb ohonom yn Eglwys y Crwys ddarllen am y profiad a gafodd merch sydd newydd ymgartrefu yng Nghaerdydd, yn ein capel ni un nos Sul.

Hoffwn ddweud yn bendant nad dyna'n hymateb arferol ni i ymwelwyr yn ein plith, sut bynnag y byddan nhw wedi eu gwisgo.

Gallaf sicrhau y ferch ifanc bod llond lle o groeso iddi yma, fel a fu i lawer iawn o'i blaen – ac a fydd eto i unrhyw un arall a garai ddod atom. Gall fod yn dawel ei meddwl nad hi fydd yr unig un yn ein cynulleidfa mewn jins a siaced.

O ie, o Sul cyntaf Ebrill, fe awn yn ôl at yr arfer o ddechrau oedfa'r nos am 6pm.

***D Gwyn Jones***
***Ysgrifennydd Eglwys y Crwys.***

Siom oedd gweld y fath dorri ar fy adolygiad o'r arddangosfa yn S4C yn y rhifyn olaf o'r Dinesydd (I'w Weld yn S4C). Digwyddodd yr un peth yn ddiweddar i'r sylwadau ar waith Ifor Davies, yr artist o bwys o Benarth – er nad oedd yr un ohonynt yn faith yn y lle cyntaf.

Gan gydnabod hawliau pob golygydd, nid wy'n fodlon gweld newid i'r graddau fod nonsens yn cael ei wneud o'r synnwyr ac o'r cynnwys.

Y canlyniad yw nad yw'r hyn sydd ar ôl yn gywir nac yn adlewyrchu fy chwaeth na fy marn.

Gwnaethpwyd cam y tro hwn â'r trefnwyr, y noddwyr, yr artistiaid, a minnau.

***Seiriol Davies***

*Gresyn yw gorfod cwtogi ar waith unrhyw gyfrannwr, ond mae lle yn brinach na'r erthyglau yn aml.*

*Cwtogwyd yr erthygl dan sylw o dros 500 o eiriau (gwerth tudalen gyfan) i tua 250 wrth olygu tudalen gelfyddydol rhifyn mis Mawrth.*

*Er hynny, ymddiheurwn os wnaed cam â hi.* ***Golygydd.***

# Y N D I G W Y D D

## H A L E L I W I A !

### PERFFORMIO YN Y PULPUD

YNG NGHAPEL Ebeneser ar 24 Mawrth cafwyd gwledd â chyflwyniad dwy ddrama ysgafn gan Gymdeithas Ddrama'r Eglwys dan gyfarwyddyd Geoffrey Morgan ac Elin Tudur.



Y gyntaf oedd *Harri'r Wythfed* (llun uchod) gan Ifan Gruffydd, drama am y digwyddiadau tyngedfennol a ddaeth yn sgil trafodaethau ariannol (yr un hen gân) rhwng y Ffermwr (Arwyn Jones) a'r Cynhyrchydd teledu ffug (Arwel Peleg).

Arwr anweledig y ddrama oedd y tarw – Harri'r Wythfed – dan ofal Wil y gwas (Melfyn Hopkins) a ddaeth i'r adwy i hel y twyllwyr o'r tir. Trueni na wireddwyd fy mreuddwyd o weld tarw byw (ac eithrio un neu ddau o'r actorion) ar lwyfan festri Ebeneser! Tan tro nesa.

Yr ail ddrama oedd *Salŵn Sal* Nansi Pritchard, wedi ei lleoli yn salŵn digon tawel Sal (Afryl Davies).

Tawel, hynny yw, nes i Hank (Aled Glynne) a Ben (Dafydd Parri) glywed â dychryn fod Dic Dau Wn ar gyrraedd y dre.

Dilyn y cynnwrf yn y bar wnaeth y ddrama, wrth i awr dyngedfennol canol dydd – *High Noon* os fuodd un erioed – ddod yn nes. Digon o chwerthin ac ysgwyd boliau a gafwyd, a'r cyfan yn awyrgylch gynnes y gymdeithas.

Mwy eto, os gwelwch yn dda.

---

MI FYDDAI'N dipyn o sgytwad i bâr ar fin dathlu eu Priodas Arian i sylweddoli nad ydyn nhw mewn gwirionedd yn gyfreithiol briod.

Dyna oedd y sefyllfa bortrewyd gan Gymdeithas Ddrama'r Crwys yn eu haddasiad o ddrama JB Priestley *Dedwydd Briodas*.

Dros dair noson gychwyn mis Mawrth yn Theatr yr YMCA perfformiodd y Gymdeithas eu cynhyrchiad yn gelfydd dan gyfarwyddyd medrus George Owen. Cymaint yw eu llwyddiant yn denu cynulleidfa fel eu bod bellach yn ystyried cynnal eu perfformiadau nesaf mewn neuadd neu theatr mwy o faint.


**GWYLIAU GWYLIAU GWYLIAU**

**Dewis gwych gyda Chwmni Teithio Richards**

- **Taith o gwmpas Palesteina**
  8 diwrnod, gan adael 16 Ebrill
  dan arweiniad y Parch D Ben Rees
- **Mordaith ar y Canberra**
  gyda Trebor Edwards, 6 - 21 Medi
- **Patagonia**
  21 diwrnod, Hydref 92
- **Mynyddoedd y Rockies, Canada ac Alaska**
  18 diwrnod gan adael 27 Mehefin
- **Bermuda, Efrog Newydd, Taith Dail yr Hydref**
  Hefyd yn ymweld â Niagara, Washington a Philadelphia, 17 diwrnod yn gadael 17 Medi

**Os oes gennych ddiddordeb, ffoniwch Aled Richards**
**Cwmni Teithio Capital**
**11 Heol Penllyn, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd**
**Ffôn 0222 628661**



ADRAN Y GYMRAEG

**M A MEWN ASTUDIAETHAU GWERIN**

Cynigir y radd newydd hon ar y cyd gan Amgueddfa Werin Cymru ac Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru, Caerdydd.

Ymhlith y pynciau a astudir bydd arferion traddodiadol, llên gwerin, ac agweddau ar fywyd yn y gymuned Gymreig.

Cwrs blwyddyn (llawn amser) yn dechrau Hydref 1992

***Am fanylion pellach, ysgrifennwch at***
***Y Cofrestrydd***
***Prifysgol Cymru Caerdydd***
***Blwch SP 78***
***Caerdydd CF1 1XL***

CAERDYDD



CYFRES NEWYDD O DDIDDORDEB ARBENNIG I FENYWOD I'W DARLLEDU AR HTV CYMRU/WALES AM 10.45PM




**23 EBRILL: SUITED IN BED** *(Beth os yw'r fflam yn diffodd mewn perthynas)*
**30 EBRILL: LOCK UP YOUR DAUGHTERS** *(Merched o Gymru mewn carchar yn Lloegr)*
**7 MAI: WHAT'S THE USE OF TALKING** *([illegible] – pa gymorth sydd i fenywod)*
**14 MAI: A KNUCKLE SANDWICH FOR MAN** *(Trais mewn perthynas – sut ellid ei atal)*
**21 MAI: DEAR DEPARTURES** *(Y 'busnes' o farw)*
**28 MAI: BIRTH RIGHTS** *(Beichiogrwydd a genedigaeth – y ddarpariaeth i famau Cymru)*

CYNHYRCHYDD/
CYFARWYDDWRAIG:
ANGELA GRAHAM

TELIESYN

CYNHYRCHIAD TELIESYN
3 SGWÂR MOUNT STUART
CAERDYDD CF1 6EE
(0222) 480911



lluniau lliw cyf

*yn cyflwyno*

***Gwanwyn a'r Gwin***

*gyda*
***Meredith Edwards, Stifyn Parry, Iris Jones, Eluned Jones Dyfed Thomas, Carys Gwilym, Iwan Tudor, a Myfanwy Talog***

*Drama gomedi o'r 50au*
*wedi ei haddasu gan Meredith Edwards*
*a'i lleoli yn Rhosllannerchrugog*

***Nos Sul y Pasg, 19 Ebrill***

**S4C**

**Bob nos Fawrth**
**8.55pm**

# S4C

CÔR Y BYD

# PARC YR ARFAU
# CAERDYDD
# SADWRN Y SULGWYN
# 23 MAI 1992

**HYD AT 10,000 O LEISIAU GYDA**

| DAME GWYNETH JONES | DENNIS O'NEILL | OWAIN ARWEL HUGHES |
|---|---|---|
| Soprano | Tenor | Arweinydd |

Mewn cydweithrediad â
**S4C**

TOCYNNAU £17.50

**FFONIWCH**
**(0222) 691999**
**NEU**
**(0222) 230130**

GŴYL GERDDI CYMRU



# DIGWYDDIAD *y* DEGAWD

Bydd Gŵyl Gerddi Cymru yn ddathliad pum mis o fywyd newydd, twf a hwyl, gydag un miliwn a hanner o goed, llwyni a phlanhigion fydd yn dod â lleoliad prydferth 142 o erwau y cwm yn fyw o liw a chyffro.

Bydd rhywbeth at ddant pawb yng Ngŵyl Gerddi Cymru, o theatr stryd, opera a chwaraeon i sioeau garddwriaethol gwych. Byddwch hefyd yn gallu dewis o amrywiaeth eang o gyfleoedd rhagorol i fwyta ac i siopa ar y safle. Gwnewch yn siwr y byddwch yno.

Am fwy o wybodaeth, cysyllter â :
**Gŵyl Gerddi Cymru Cyfyngedig,**
**Blwch Post 14, Glynebwy,**
**Gwent, NP3 6XZ.**
**Rhif ffôn (0495) 305545**

Garden Festival Wales
Gŵyl Gerddi Cymru
Ebbw Vale 92

© 1991 Garden Festival Wales Limited

MAI 1af *i* HYDREF 4ydd 1992